| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 30 Gorffennaf 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Cynghorydd Barry Mellor<br>Mike Jones (Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd) |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones<br>(Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad) |
| **Awdur yr adroddiad** | Kimberley Mason a Sian Lloyd Price (Rheolwyr Prosiect Corfforaethol) |
| **Teitl** | Prosiectau Cronfa Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd:<br>Sgwâr Sant Pedr a Pharc Cae Ddôl |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn ynglŷn â dau brosiect Cronfa Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd yn Rhuthun - gwelliannau parth cyhoeddus ar gyfer Sgwâr Sant Pedr a Pharc Cae Ddôl.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen gwneud penderfyniad am gynnydd y prosiect i gam dylunio cysyniadol yn dilyn ymgynghoriad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn nodi sefyllfa prosiectau Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd a gymeradwywyd yn Rhuthun.

3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo cam nesaf y prosiect, dechrau'r dyluniadau manwl.

3.3. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn Atodiad 1 fel rhan o'i ystyriaethau.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Cefndir

4.1. Cafodd y prosiectau hyn eu cymeradwyo o fewn cais Cyngor Sir Ddinbych am gyllid o dan rownd dau o Gronfa Ffyniant Bro (LUF) Llywodraeth y DU. Roedd y cais yn rhan o becyn gyda dau brosiect: Prosiect 1 - Treftadaeth Unigryw a Lles Rhuthun, Prosiect 2 - Cymunedau Gwledig a Lles

4.2. Mae'r ddau gynllun yn rhan o Brosiect 1: Mae Treftadaeth Unigryw a Lles Rhuthun yn seiliedig ar waith a wnaed gan weithgor Dyfodol Rhuthun o'r Cyngor Tref, wnaeth ddatblygu ac ymgynghori ar weledigaeth hirdymor ar gyfer Rhuthun. Mae'r ddau gynllun yn cynnwys allbynnau penodol, ac yn rhannu allbwn sy'n ymwneud â hyd llwybrau beicio gwell. Mae'r allbynnau dan gontract, a'r hyn a ragwelir i bob cynllun ei gyflawni i'w weld yn Atodiad 2.

4.3. Y ffocws ar gyfer Sgŵar Sant Pedr oedd creu man digwyddiadau (wedi'i hwyluso drwy gael gwared â'r gylchfan), palmentydd lletach a mwy diogel ar gyfer cerddwyr a mynediad i ddefnyddwyr ar olwynion, cynnal a chadw mynediad i gerbydau yn cynnwys parcio, darpariaeth gwell ar gyfer gollwng ac i'r anabl, dyluniad sy'n tawelu ac yn arafu traffig ac yn atal y defnydd o ganol y dref fel llwybr drwodd cyflym a chyflwyno llwybr teithio llesol. Ar gyfer Cae Ddôl roedd y brîff yn llai diffiniedig, gan fod yna restr o ddymuniadau ar gyfer gweledigaeth hirdymor y parc, na ellir ei gyflawni yn ei gyfanrwydd o fewn y cyllid oedd ar gael. Mae'r dyluniad ar gyfer y parc wedi bod yn seiliedig ar beth a ystyrir y gellir ei gyflawni, ei ddarparu, y canlyniadau ac yn dderbyniol i'r budd-ddeiliaid allweddol.

4.4. Mae cwmpas yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn Cae Ddôl yn cynnwys llwybr beics rhwng y fynedfa i'r parc a'r briffordd gyferbyn â'r Clwb Rygbi, sy'n cynnwys pont newydd i safonau teithio llesol ac adleoli rhai o offer y gampfa, llwybr sgwter a beics newydd (trac pwmpio), wedi'i leoli wrth y parc sglefrio presennol, mynediad gwell i'r afon mewn un lleoliad, ardal fach o blannu blodau gwyllt ac (yn amodol ar ganlyniad trafodaethau parhaus ynglŷn â darpariaeth toiledau cyhoeddus) gwelliant cyfyngedig i'r cyfleusterau toiledau.

4.5. Oherwydd y weledigaeth tymor hwy i'r parc, roedd y gwaith dylunio cysyniadol yn cynnwys llunio prif gynllun ar gyfer y parc, i sicrhau nad yw'r cynllun Cronfa Ffyniant Bro arfaethedig yn atal datblygiad ardaloedd o'r parc yn y dyfodol fel a phan fydd cyfleoedd cyllid yn codi yn y dyfodol.

4.6. Mae tîm Gwasanaethau Stryd y Cyngor yn ymgymryd â phrosiect ar wahân ar hyn o bryd ar gyfer ailwampio'r ardal chwarae bresennol o fewn y parc, sy'n cynnwys darnau ychwanegol o offer chwarae. Mae hwn yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a bydd yn cael ei gyflawni yr haf hwn.

## Cynnydd

4.7. Mae'r dyluniad cysyniadol ar gyfer prosiect Sgwâr Sant Pedr wedi'i gwblhau ac wedi'i gynnwys yn y cwmpas mae'r sgwâr a'r gyffordd gyda Stryd Clwyd, Stryd y Farchnad mor bell â Ffordd Wynnstay (bellach yn ymddangos fel un ffordd i lawr ar gyfer y llwybr teithio llesol a dau ddewis wedi eu datblygu). Mae'r dyluniad hefyd yn cynnwys man parcio ar gyfer coets ar Ffordd Wynnstay. Cynigir hefyd i wneud Stryd y Ffynnon yn un ffordd o'i chyffordd gyda Stryd y Llys, fydd yn galluogi darparu man parcio ychwanegol. Bydd yna balmentydd lletach ar gael yn yr ardal y tu ôl i'r Hen Lys a rhan fach o Stryd y Castell ble mae'n ffurfio cyffordd gyda'r sgwâr. Nid yw Stryd y Castell wedi'i gynnwys yn y cynllun ar hyn o bryd, gan nad oedd yn cael ei ystyried yn fforddiadwy ar y dechrau. Gellir gweld y dyluniadau a rannwyd yn y digwyddiadau ymgynghori diweddar yn Atodiad 3.

4.8. Gellir gweld y Prif Gynllun a ddatblygwyd ar gyfer Cae Ddôl a'r cynllun bwriedig a ddarperir yn defnyddio arian Cronfa Ffyniant Bro hefyd yn Atodiad 3.

4.9. Mae Cyngor Tref Rhuthun yn ceisio cael Cyllid Chwaraeon Cymru ar gyfer datblygiad pellach o fewn y parc, fydd yn cyfrannu tuag ar y blaenoriaethau a'r dyheadau ehangach ar gyfer y parc os yn llwyddiannus.

## Ymgynghori ac ymgysylltu

4.10. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf yn bersonol i Gyngor Tref Rhuthun a Grŵp Ardal yr Aelodau Rhuthun ym mis Mawrth a mis Ebrill 2024. Bydd diweddariadau pellach yn cael cyflwyno iddynt yn y dyfodol agos.

4.11. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16 Ebrill a 12 Mai 2024 i gael barn pobl ar y dyluniadau ar gyfer Sgwâr Sant Pedr a Pharc Cae Ddôl.

4.12. Roedd holiaduron ar gael i'w casglu yn Llyfrgell Rhuthun a derbynfa Neuadd y Dref a gwahoddwyd cyfranogwyr hefyd i lenwi'r holiadur ar-lein ar Sgwrs y Sir, Sir Ddinbych. Roedd dwy sesiwn galw heibio wedi eu cynnal yn y gymuned a darparwyd gweithdai gyda disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd a Chlwb Ieuenctid Rhuthun.

4.13. Anfonwyd gohebiaeth at breswylwyr, busnesau a Chynghorau Tref a Chymuned i hybu'r ymgynghoriad a chwblhaodd ein Independent Consultants Oneday Ltd "curo drysau" i oddeutu 200 eiddo yn y cyffiniau.

4.14. Derbyniom 400 o ymatebion i holiadur yr ymgynghoriad. Mae Oneday Ltd wedi adolygu'r adborth a dderbyniwyd ac mae eu hadroddiad ynghyd â chrynodeb o'u canfyddiadau i'w gweld yn Atodiad 4.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r prosiectau yn ceisio cael effaith weledol mewn ardaloedd lleol, yn arbennig yr ardaloedd sydd â'r lefel uchaf o angen. Mae'r cais felly'n cyfrannu at themâu'r Cynllun Corfforaethol sy'n ymwneud â Sir Ddinbych Ffyniannus a Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd. Mae'r gwaith yn cyfrannu at ddatblygu strategaeth economaidd a fydd yn adfywio canol y dref ac yn cefnogi twf yr economi leol.

5.2. Caiff y ddau brosiect eu hadolygu i sicrhau cyfraniad niwtral neu gadarnhaol tuag at gyflawni'r nodau i fod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol a Di-garbon erbyn 2030.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cyfanswm cost y prosiect a amcangyfrifir ar gyfer Sgwâr Sant Pedr yw £3,704,424 gyda £3,333,982 ohono wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth y DU o grant Gorllewin Clwyd o'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF2) a £370,442 o arian cyfatebol gan Gyngor Sir

Ddinbych.  Rydym wedi dyrannu £2,113,249.21 ar hyn o bryd i gam adeiladu'r prosiect.

6.2. Cyfanswm cost y prosiect a amcangyfrifir ar gyfer Cae Ddôl yw £926,215 gydag £833,594 ohono wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth y DU o grant Gorllewin Clwyd o'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF2) a £92,621 o arian cyfatebol gan Gyngor Sir Ddinbych. Rydym wedi dyrannu £626,683.77 ar hyn o bryd ar gyfer cam adeiladu'r prosiect.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Cyflawnwyd Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer y prosiect hwn ac wedi'i atodi fel Atodiad 1.  Daethpwyd i'r casgliad bod yr effaith yn un cadarnhaol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae grŵp budd-ddeiliaid allweddol wedi'i sefydlu yn cynnwys dau gynrychiolydd o'r Cyngor Tref a thri Aelod o Rhuthun. Mae'r un cynrychiolwyr hyn hefyd yn rhan o'r Bwrdd Prosiect, ynghyd ag Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, a swyddogion perthnasol. Mae budd-ddeiliaid allweddol eraill yn cynnwys swyddogion CSDd sy'n cynnal a chadw'r ardaloedd i'w datblygu ac maent yn cael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd tîm y prosiect.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw effaith ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn. Gyda'r cynnydd sylweddol presennol mewn costau deunydd ac adeiladu, bydd angen monitro costau cyffredinol y prosiect yn ofalus i gwrdd â'r dyfarniadau grant a gwneud pob ymdrech i sicrhau arian cyfatebol allanol i gefnogi cyfraniad y Cyngor.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae nifer o risgiau i'r prosiect wedi'u nodi ac wedi'u cynnwys yn asesiad risg achos busnes y prosiect llawn.  Gellir gweld y rhain yn Atodiad 5.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 111, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000. Y pŵer i ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal.